**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Ymchwiliad Craffu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 24 Tachwedd 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd T J Hennegan (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S Bennett | A M Day | M Jones |
| H M Morris | C L Philpott | B J Rowlands |
| M S Tribe | | |

**Mynychwyr eraill**
Alyson Pugh
Hayley Gwilliam

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Paul Thomas | Rheolwr Partneriaeth Integreiddio Cymunedol |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |
| Gareth Pritchard | Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| Michelle Roberts | Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): R Fogarty a/ac M H Jones

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4 **Trosolwg Strategol o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Gwahoddwyd y Cyng. Alyson Pugh (Aelod y Cabinet dros Les), Julie Davies (Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd), Jane Whitmore (Comisiynydd

Arweiniol Strategol), Paul Thomas (Rheolwr y Bartneriaeth Integreiddio Cymunedol) a Gareth Pritchard (Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) i'r cyfarfod i gyflwyno'u hadroddiad a oedd yn rhoi trosolwg strategol o'r mater.

Amlinellwyd y canlynol ganddynt:

- Pam rydyn ni'n gwneud hyn, gan gynnwys y diffiniad o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o dan y Ddeddf Plismona a Throseddu 2014, sut yr adroddir amdano, y cynllun 4 cam a sut rydyn ni a'n partneriaid yn darparu atebion penodol.
- Gwaith ymyrryd yn gynnar ac atal a'r offer a ddefnyddiwyd.
- Yr ymagwedd partneriaeth, gan esbonio nad yw hyn yn cael ei darparu gan Gyngor Abertawe'n unig ac mae ymagwedd partneriaeth eang o ran mynd i'r afael ag YG.
- Atebolrwydd Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Ein partneriaid allweddol.
- Cyllid
- Perfformiad a thueddiadau presennol sy'n esbonio bod data YG yn cael ei fonitro a'i gasglu drwy system NICHE yr Heddlu.
- Heriau a chyfleoedd yn y dyfodol
- Risgiau
- Hefyd yn atodedig i'r adroddiad roedd rhestr o'r Deddfwriaethau allweddol sy'n effeithio ar YG, a chanllawiau'r Swyddfa Gartref am egwyddorion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Bydd yr adroddiad a'r nodiadau llawn o'r drafodaeth yn ffurfio rhan o Adroddiad Canfyddiadau'r Ymchwiliad a chyflwynir hyn i'r Panel ar ddiwedd cam casglu tystiolaeth yr ymchwiliad. Yna caiff ei ystyried ochr yn ochr â'r holl dystiolaeth arall a gasglwyd pan drafodir casgliadau ac argymhellion yr ymchwiliad ac y cytunir arnynt.

## 5 Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad a Chynllun Drafft y Prosiect

Cytunodd y Gweithgor ar eu cylch gorchwyl a chynllun y prosiect gydag ychwanegiad sef gwahodd Swyddogion Cefnogi Cymdogaethau a'r Cydlynydd Ardal Leol i ymuno. Cytunwyd hefyd ar yr Asesiad Effaith Integredig a'r Cais am Dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 am

**Cadeirydd**